OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 476 (Cy. 118)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2022

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) ("y Ddeddf"). Maent yn diwygio gofyniad penodol a osodir ar ddarparwyr gofal cymdeithasol cofrestredig ac maent wedi eu gwneud mewn ymateb i ledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn gosod gofynion ar ddarparwyr y gwasanaethau gofal cymdeithasol a reoleiddir gan y Ddeddf. Maent yn cynnwys gofyniad yn adran 10 i gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/1097 (Cy. 277)) ("y Rheoliadau Datganiadau Blynyddol") yn darparu manylion pellach am y datganiadau blynyddol. Maent yn cynnwys darpariaeth a wneir o dan adran 10(4) ynghylch y dyddiadau erbyn pryd y mae rhaid cyflwyno'r datganiadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 10(1) o'r Rheoliadau Datganiadau Blynyddol. Mae'r rheoliad hwnnw yn ymwneud â'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyflwyno datganiadau blynyddol sy'n ymwneud â'r blynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20 a 2020-21. Yn flaenorol, roedd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflwyno datganiadau blynyddol ar gyfer y cyfnodau hyn heb fod yn hwyrach na 26 Mai 2022. O dan reoliad 10(2) roedd yn ofynnol cyflwyno

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. 476 (W. 118)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Regulated Services (Annual Returns) (Wales) (Amendment) (Coronavirus) Regulations 2022

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations are made under powers given to the Welsh Ministers by the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2) ("the Act"). They amend a particular requirement placed on registered providers of social care and are made in response to the spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Part 1 of the Act places requirements on providers of the social care services that are regulated by the Act. They include a requirement in section 10 to submit an annual return to the Welsh Ministers. The Regulated Services (Annual Returns) (Wales) Regulations 2017 (S.I. 2017/1097 (W. 277)) ("the Annual Returns Regulations") provide further details about the annual returns. They include provision made under section 10(4) about the dates by which the returns must be submitted.

These Regulations amend regulation 10(1) of the Annual Returns Regulations. That regulation relates to the date by which annual returns relating to financial years 2018-19, 2019-20 and 2020-21 must be submitted. Previously, service providers were required to submit annual returns for these periods no later than 26 May 2022. Under regulation 10(2) financial returns for 2021-22 were required to be submitted no later than 56 days of the end of that financial year (31 May

datganiadau ariannol ar gyfer 2021-2022 heb fod yn hwyrach na 56 o ddiwrnodau ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol honno (31 Mai 2022). Effaith y diwygiadau a wneir gan reoliad 3 yw bod rhaid i ddarparwyr pob math o wasanaethau rheoleiddiedig gyflwyno datganiadau blynyddol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20, 2020-21 a 2021-22 heb fod yn hwyrach na 31 Hydref 2022.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2022). The effect of the amendments made by regulation 3 is that providers of all types of regulated services must submit annual returns for financial years 2018-19, 2019-20, 2020-21 and 2021-22 no later than 31 October 2022.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Social Services and Integration, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 476 (Cy. 118)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Ebrill 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *27 Ebrill 2022* |
| *Yn dod i rym* | *20 Mai 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10(4) a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 20 Mai 2022.

**Diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017**

**2.** Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017(**2**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 3.

(**1**) 2016 dccc 2; *gweler* y diffiniad o "a ragnodir" a "rhagnodedig" yn adran 189.

(**2**) O.S. 2017/1097 (Cy. 227), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/233 (Cy. 52), 2020/486 (Cy. 111) ac O.S. 2021/395 (Cy. 126).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. 476 (W. 118)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Regulated Services (Annual Returns) (Wales) (Amendment) (Coronavirus) Regulations 2022

| | |
|---|---|
| *Made* | *25 April 2022* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *27 April 2022* |
| *Coming into force* | *20 May 2022* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 10(4) and 187(1) of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016(**1**).

**Title and commencement**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Regulated Services (Annual Returns) (Wales) (Amendment) (Coronavirus) Regulations 2022.

(2) These Regulations come into force on 20 May 2022.

**Amendments to the Regulated Services (Annual Returns) (Wales) Regulations 2017**

**2.** The Regulated Services (Annual Returns) (Wales) Regulations 2017(**2**) are amended in accordance with regulation 3.

(**1**) 2016 anaw 2; *see* the definition of "prescribed" in section 189.

(**2**) S.I. 2017/1097 (W. 227), amended by S.I. 2019/233 (W. 52), 2020/486 (W. 111) and S.I. 2021/395 (W. 126).

**3.** Yn rheoliad 10(1) (terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiadau blynyddol)—

(a) yn lle "2019-2020 neu 2020-2021" rhodder "2019-2020, 2020-2021 neu 2021-2022";

(b) yn lle "26 Mai 2022" rhodder "31 Hydref 2022".

**3.** In regulation 10(1) (time limit for submission of annual returns)—

(a) for "2019-2020 or 2020-2021" substitute "2019-2020, 2020-2021 or 2021-2022";

(b) for "26 May 2022" substitute "31 October 2022".

*Julie Morgan*

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
25 Ebrill 2022

Deputy Minister for Health and Social Services under the authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

25 April 2022

©ⓗHawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39300-2

£4.90

9 780348 393002